Mae dod o hyd i ofal plant addas yn her i lawer o deuluoedd, felly rydym ni wedi creu'r arweiniad hwn i'ch helpu chi i ddewis yr hyn sy'n iawn i chi. Mae'r arweiniad yn egluro beth yw'r gwahanol fathau o ofal plant sydd ar gael ac yn rhoi gwybod i chi am:

- Y Gwasanaethau Gwybodaeth Plant (GGP) a sut i ddod o hyd iddynt
- Y cwestiynau i'w gofyn wrth edrych am ofal plant
- Cymorth ariannol tuag at ofal plant a sut i'w hawlio
- Dewisiadau gofal plant cofrestredig
- Dewisiadau gofal plant sydd o bosib heb eu cofrestru
- Safonau gofal plant - Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) ac Estyn
- Cymorth i blant sydd ag anabledd neu Anghenion Addysgol Arbennig



Rydym hefyd yn sôn am Ganolfan Byd Gwaith a'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Efallai bod rhai ohonoch chi wedi clywed am "gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith", felly byddwn yn sôn am hynny a pheth o'r cymorth y gallai fod gennych hawl iddo, er enghraifft absenoldeb rhiant o'r gwaith.

Manylion Cyswllt Defnyddiol

I gloi, yng nghefn yr arweiniad, mae 2 adran o rifau cyswllt defnyddiol a gwefannau. Mae'r adran gyntaf yn rhestru sefydliadau Llywodraeth, gwirfoddol a chenedlaethol, er enghraifft elusennau fel Cyswllt Teulu. Mae'r ail yn rhestru 22 swyddfa leol y Gwasanaethau Gwybodaeth Plant yng Nghymru, o Ynys Môn yn y gogledd i Fro Morgannwg yn y de.

gwasanaethau gwybodaeth plant (GGP)

Mae'r 22 swyddfa Gwasanaethau Gwybodaeth Plant (GGP) ledled Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ofal plant a gwasanaethau plant. Dyma'r man cychwyn i weld pa fath o ofal plant sydd fwyaf addas i'ch teulu chi.

Gallwch naill ai ffonio neu ymweld â'ch GGP lleol i siarad â phobl fydd yn gallu egluro pa wasanaethau plant a gofal plant sydd ar gael yn eich ardal chi.

Mae rhestr o'r Gwasanaethau Gwybodaeth Plant (GGP) yng nghefn yr arweiniad hwn, ynghyd â chyfeiriadau, rhifau ffôn a gwefannau. Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi sefydlu GGP, felly mi fydd yna un yn eich ardal chi.

Yn ogystal â'ch helpu chi'n uniongyrchol, gall eich GGP lleol eich cyfeirio at asiantaethau a sefydliadau eraill. Gall y rhain gynnig cymorth a chefnogaeth bellach i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.



2

sut i ddewis gwasanaeth gofal plant

Yn gyntaf, ewch i weld cymaint â phosib o ddarparwyr gofal plant cyn penderfynu pa un sydd orau ar eich cyfer chi a'ch plentyn a gwnewch yn siwr eu bod wedi'u cofrestru. Yn ail, i'ch helpu chi i benderfynu, rydym wedi paratoi'r rhestr ganlynol o gwestiynau. Dyma bethau mae pobl eraill wedi ei chael hi'n ddefnyddiol i'w gofyn wrth edrych am wasanaeth gofal plant.

Cwestiynau
i'w gofyn wrth
edrych am
wasanaeth gofal
plant:



a yw'n groesawgar?

- A ydych chi'n teimlo bod croeso i chi?
- Faint o sylw mae eich plentyn yn ei gael?
 - A yw ef/hi'n cael ei g/wneud i deimlo'n arbennig?
- A yw'r gofalywyr/staff yn barod i helpu?



a yw'n lle sy'n ysgogi plant?

- A oes arwyddion gweladwy fod plant yn mwynhau ac yn cael eu hysgogi, er enghraifft a oes lluniau ar y waliau, wynebau hapus ac ati?
- Pa raglen weithgareddau sy'n cael ei chynnig?
 - A yw'n amrywiol ac yn ysgogi?
 - A yw'r gweithgareddau'n ymestynnol ac yn ddiddorol?
- A yw merched a bechgyn yn cael eu hannog i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd a'u hannog i ddefnyddio'r holl offer?
- A fydd rhywun yn darllen straeon i 'mhlentyn?
 - A oes yno lyfrau i edrych arnyd nhw?

pa gyfleusterau sydd yno?

- A oes yna lawer o deganau ac offer chwarae addas?
- A oes ardal chwarae y tu allan?
- Pa ddefnydd sy'n cael ei wneud o deledu neu chwaraeon cyfrifiadurol?
- Beth am brydau bwyd?
 - Os oes anghenion diet arbennig gan fy mhlentyn, a oes modd darparu ar eu cyfer?



pa mor ofalgar yw'r gofal?

- A yw'r lle'n hyblyg ynghylch rhoi cyfnod o gynefino i fy mhlentyn?
 - A gaf i aros gyda 'mhlentyn i'w helpu i gynefino?
- A gaf i gyfle i ddarganfod sut mae fy mhlentyn yn cynefino ac yn datblygu?
 - A oes yna ffyrdd systematig o wneud hyn?
- A fydd fy mhlentyn yn cael amser tawel iddo/i ei hun os oes angen?
- A oes yna gyfnodau gorffwys hyblyg?
- Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer triniaeth feddygol frys a chymorth cyntaf?
- Beth am ddysgu mynd i'r tŷ bach ar ei ph/ben ei hun a beth os yw fy mhlentyn yn gwlychu ei hun?

beth am y staff?

- Pa gymwysterau sydd gan y gofalywyr/staff? (Mae gofynion penodol ynghylch lefelau cymwysterau'r staff mewn lleoliadau sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ASGC).
- A yw'r gofalywyr/staff yn cael cynnig hyfforddiant parhaus?
- A yw'r gofalywyr/staff yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r plant?
- Sut mae'r staff yn siarad â'r plant e.e. a ydyn nhw'n amyneddgar ac yn ystyriol?
- Sut mae'r staff yn annog ymddygiad da?
- Wrth ystyried gwarchodwyr plant, gofynnwch am gael gweld eu portffolio a'u geirda.

cwestiynau eraill:

- Pa ffurf sydd i'r diwrnod?
- A fyddant yn mynd allan am dro ac ar dripiâu?
- Beth yw'r trefniadau ar gyfer trefnu lle?
- A all fy mhlentyn ddod â phethau o gartref i'w helpu i gynefino?
- Sut gyfleusterau mynediad a pharcio sydd yno?
- Faint fydd y gofal plant yn ei gostio?
 - Beth sy'n cael ei gynnwys yn y gost e.e. mynd ar drip, bwyd, gofal yn ystod gwyliau ac ati?

I gloi, unwaith y dewch chi o hyd i wasanaeth gofal plant sy'n eich plesio, ceisiwch gael cyfnod o gynefino gyda rhai ymweliadau byr ar gyfer eich plentyn a chi'ch hun. Bydd hyn yn help i chi'ch dau deimlo'n hapusach a mwy hyderus.

3

cymorth ariannol gyda chostau gofal plant

Gall gofal plant ymddangos yn ddrud, ond cyn i chi benderfynu na allwch ei fforddio, cofiwch fod hawl gan y rhan fwyaf o deuluoedd i gael cymorth ariannol.

Mae'r cymorth yma'n cynnwys:

- 1) credyd treth plant
- 2) credyd treth gwaith
- 3) elfen gofal plant o'r credyd treth gwaith
- 4) cynlluniau cymorth lleoedd a help llaw ('Helping Hands')
- 5) addysg ran-amser am ddim i bob plentyn 3 a 4 oed
- 6) talebau gofal plant gan rai cyflogwyr



1) credyd treth plant

Credyd Treth Plant sy'n cynorthwyo teuluoedd â phlant. Gallwch wneud cais amdano os ydych yn gweithio neu beidio. Mae pob teulu sydd â phlant ac incwm o hyd at £58,000 y flwyddyn (neu hyd at £66,000 y flwyddyn os oes plentyn dan flwydd oed) yn cael hawlio'r credyd yn yr un ffordd. Telir Credyd Treth Plant yn uniongyrchol i'r sawl sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am y plentyn neu'r plant. Gellir ei ddefnyddio tuag at eich costau gofal plant, ond nid yw'n daliad penodol ar gyfer gofal plant.

2) credyd treth gwaith

Credyd Treth Gwaith sy'n cynorthwyo pobl sy'n gweithio (i gyflogwr neu'n hunangyflogedig) ar incwm isel drwy ychwanegu at eu henillion. Telir Credyd Treth Gwaith i'r sawl sy'n gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos. Rhaid i gyplau – os yw'r ddau ohonoch yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos – ddewis pa un ohonoch fydd yn ei dderbyn. Ni allwch dderbyn Credyd Treth Gwaith os nad ydych yn gweithio.

(Mae mwy o wybodaeth yn Adran 9 yr arweiniad hwn am Ganolfan Byd Gwaith a chredyd treth gwaith).

3) elfen gofal plant y credyd treth gwaith

Gydag Efen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith mae'n bosib y gallwch gael cymorth ychwanegol gyda chostau gofal plant wedi'i gymeradwyo neu gofrestrdig. Ers mis Ebrill 2006, mae cyfran y cymorth tuag at gostau gydag elfen gofal plant y credyd treth wedi codi i 80%, hyd at derfyn o £175 ar gyfer un plentyn a £300 ar gyfer dau blentyn neu fwy. Nid yw'r Credyd Treth Plant na'r Credyd Treth Gwaith yn effeithio ar daliadau **Budd-dal Plant**, sy'n cael eu talu ar wahân. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â llinell gymorth Cyllid y Wlad a Chredyd Treth ar **0845 300 3900**.

4) cynlluniau cymorth lleoedd a help llaw ('helping hands')

Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn darparu arian ychwanegol i ddarparwyr gofal plant a/neu deuluoedd ar incwm isel neu fudd-daliadau penodol er mwyn iddynt allu fforddio gofal plant o ansawdd da. Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn galluogi darparwyr i gynnig gwasanaeth hollgynhwysol i bob plentyn beth bynnag fo'i anghenion. Am fanylion cynlluniau yn eich ardal chi cysylltwch â'ch GGP lleol.



5) addysg gynnar ran-amser yn rhad ac am ddim

Hefyd, cofiwch fod hawl gan bob plentyn 3 a 4 oed yng Nghymru i le addysg gynnar ran-amser yn rhad ac am ddim.

6) talebau gofal plant

I gloi, mae rhai cyflogwyr yn cynorthwyo gweithwyr drwy ddarparu talebau gofal plant.



4

mathau o ofal plant cofrestredig

Gellir rhannu gwasanaethau gofal plant yn 2 grŵp – rhai sy'n gorfod cofrestru a rhai nad ydyn nhw'n gorfod cofrestru.

Mae gwasanaethau cofrestredig yn cynnwys:

- 1) gwarchodwyr plant cofrestredig
- 2) meithrinfeydd dydd
- 3) cynlluniau chwarae
- 4) playgroup plus
- 5) cylchoedd chwarae
- 6) addysg ran-amser
- 7) clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol



1) gwarchodwyr plant cofrestredig

Darparwyr gofal dydd i blant sy'n gweithio yn eu cartrefi eu hunain yw gwarchodwyr plant cofrestredig. Maen nhw'n gweithio o fewn y gymuned, sy'n golygu fod modd i blant fynd i gylchoedd chwarae / cylchoedd meithrin, cylchoedd ti a fi, a chlybiau lleol neu ymweld â ffrindiau yn lleol.

Cyfrifoldebau a Chofrestru

Mae gwarchodwyr plant yn gyfrifol am ddiogelwch eich plentyn yn ogystal â'i ddatblygiad emosiynol a chorfforol. Dylent ddarparu amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu oddi mewn a thu allan i'r cartref. Rhaid i warchodwyr plant gael eu cofrestru a'u harolygu gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC), a fydd yn gwirio eu haddasrwydd, eu cartref a phawb dros 16 oed sy'n byw yn y tŷ.

Rhaid bod gan warchodwyr plant:

- dystysgrif cofrestru gydag ASGC
- tystysgrif yswiriant o atebolrwydd cyhoeddus

Ffioedd a Hyblygrwydd

Mae gwarchodwyr plant yn hunangyflogedig ac yn gosod eu ffi eu hunain. Gallant gynnig gofal plant hyblyg drwy'r flwyddyn, yn llawn amser neu'n rhan-amser a thu allan i oriau ysgol. Gallant ofalu am hyd at 6 o blant o oedrannau amrywiol ar yr un pryd a gallant felly ofalu am frodyr a chwiorydd gyda'i gilydd.



2) meithrinfeydd dydd

Mae meithrinfeydd dydd yn darparu addysg gynnar a gofal plant cofrestredig i blant ifanc o 0-5 oed. Maen nhw fel arfer ar agor o ben bore tan fin nos o ddydd Llun hyd ddydd Gwener, drwy'r flwyddyn. Maen nhw'n cynnig amgylchedd gofalgar, diogel ac ysgogol naill ai fel gofal diwrnod llawn neu ofal rhan-amser i fabanod a phlant cyn-ysgol. Gall rhai hefyd ddarparu gofal cyn ac ar ôl ysgol ac yn y gwyliau i blant rhwng 4 a 7 ac weithiau i blant hŷn yn ogystal.

Rhaid i bob Meithrinfa Ddydd:

- gael ei chofrestru a'i harolygu gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
- meddu ar dystysgrif gofrestru ASGC
- meddu ar dystysgrif yswiriant o atebolrwydd cyhoeddus
- meddu ar dystysgrif hylendid bwyd briodol

Bwyd a byrbrydau

Mae gan y rhan fwyaf o feithrinfeydd dydd gyfleusterau i baratoi bwyd a byrbrydau ar gyfer y plant yn eu gofal. Dylent gynnig bwydlen

dair wythnos o leiaf i gynnwys bwyd o ansawdd da a darparu byrbrydau addas i hyd diwrnod y plentyn yn y feithrinfa.

Ffioedd

Mae'r rhan fwyaf o feithrinfeydd yn cael eu rhedeg gan sefydliadau preifat neu wirfoddol a bydd ffioedd yn amrywio ar draws y wlad. Mae cymorth tuag at y costau ar gael o gredydau treth, talebau gofal plant a lleoedd rhan-amser am ddim i bob plentyn 3 oed.



3) chwarae mynediad agored/cynlluniau chwarae

Gall lleoliadau Chwarae Mynediad Agored fod yn brosiectau parhaol fel meysydd chwarae antur, neu'n gynlluniau chwarae byrdymor lle mae'r plant yn rhydd i fynd a dod. Yn ystod gwyliau ysgol mae nifer o awdurdodau lleol yn trefnu neu'n cefnogi cynlluniau chwarae a all fod â mynediad agored. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn cynnig clybiau bore Sadwrn a diwrnodau gweithgaredd arbennig. Am fanylion cynlluniau chwarae yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth Plant.

4) playgroup plus/cylchoedd meithrin mwy

Cynigir Playgroup Plus / Cylchoedd Meithrin Mwy mewn rhannau o Gymru fel estyniad o gylch chwarae neu Ddosbarthiadau Addysg Feithrin yr Awdurdod Lleol. Mae'n cynnig mwy o ofal dydd na chylch chwarae traddodiadol a gall y sesiynau fod yn hirach. Mae cylchoedd yn weithredol hyd at 4 awr y dydd, hyd at 20 awr yr wythnos. Gall plant fynd â phegyn bwyd gyda nhw i'r cylch.

Rhaid i'r grwpiau Playgroup Plus/Cylchoedd Meithrin Mwy gadw at yr un safonau a dilyn yr un drefn gofrestru â'r Cylchoedd Chwarae/Cylchoedd Meithrin. Mae cylchoedd Playgroup Plus yn ymestyn eu darpariaeth Cylch Chwarae eu hunain i gynnig mwy o oriau at yr hyn a gynigir gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Yn union fel Cylchoedd Chwarae eraill, gall y gwasanaeth fod wedi'i leoli mewn neuaddau eglwys neu gymuned neu mewn ysgolion. Cylchoedd chwarae estynedig trwy gyfrwng y Gymraeg yw Cylchoedd Meithrin Mwy sy'n galluogi plant i ddod yn ddwyieithog. Cânt eu cefnogi gan y Mudiad Ysgolion Meithrin.

5) cylchoedd chwarae / cylchoedd meithrin

Mae Cylchoedd Chwarae yn darparu ar gyfer plant rhwng 2 a 5 oed, am 2 i 3 awr yn y bore neu'r prynhawn fel rheol, ac yn bennaf yn ystod y tymor ysgol. Maen nhw'n cynnig amgylchedd diogel ac ysgogol i blant chwarae, dysgu a chymdeithasu â'i gilydd. Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, elusen gofrestrdig, sy'n eu datblygu a'u cefnogi. Mae nifer o gylchoedd chwarae'n cynnig cyflwyniad i'r Gymraeg i blant ifanc. Anogir staff a gwirfoddolwyr i ddatblygu a rhannu eu sgiliau yn y Gymraeg. Mae rhieni a gofalwyr yn rhan o'r gwaith o redeg y cylchoedd chwarae ac maent yn aml yn ymuno â'u pwyllgorau rheoli.

Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledau

Cylchoedd chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg yw Cylchoedd Meithrin sy'n rhoi cyfle i'r plant ddod yn ddwyieithog (yn y Gymraeg a'r Saesneg). Cânt eu cefnogi gan y Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM), sefydliad gwirfoddol cenedlaethol. Nid oes raid i rieni allu siarad Cymraeg er mwyn i'w plant fynychu Cylchoedd Meithrin.

Mae Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (PPA Cymru) a'r Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) yn cynnig cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant yn ogystal â chynlluniau cyfeirio i integreiddio plant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau yn y cylchoedd chwarae lleol.

6) addysg ran-amser i blant 3 a 4 oed

Mae gan bob plentyn hawl i leoliad addysg gynnar o ansawdd da, rhan-amser ac am ddim y tymor wedi ei ben-blwydd yn dair oed. Golyga rhan-amser o leiaf 10 awr yr wythnos, am tua'r un nifer o wythnosau â'r flwyddyn ysgol arferol.

Costau

Nid oes disgwyl i chi gyfrannu at gostau'r lleoliad yma. Os yw eich plentyn eisoes yn mynychu lleoliad addysg gynnar pan ddaw ef/hi yn 3 oed, bydd y ffi'n cael ei gostwng. Er hynny, efallai y bydd rhaid i chi dalu am unrhyw wasanaethau neu ofal plant sy'n ychwanegol at y lleoliad addysg ran-amser am ddim.

Cofrestru

Rhaid i bob lleoliad nad yw'n ysgol fod wedi'i gofrestru gydag ASGC. Mae lleoedd ar gael yn nosbarthiadau derbyn a meithrin ysgolion, meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, Cylchoedd Meithrin a gwarchodwyr plant sy'n gysylltiedig â Rhwydwaith Plant yn Gyntaf a gymeradwywyd. Am fwy o wybodaeth am gyfleusterau cofrestredig sy'n cynnig lleoedd rhan-amser am ddim, cysylltwch â'ch GGP a/neu Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn lleol. Os ydych chi eisiau i'ch plentyn fynd i leoliad Cymraeg, cysylltwch â'r Mudiad Ysgolion Meithrin.



7) clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol

Mae clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn help i rieni neu ofalwyr sy'n gweithio neu mewn hyfforddiant. Maen nhw'n darparu clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau a gofal chwarae cyn ac ar ôl oriau ysgol i blant o oedran ysgol.

Cofrestru

Mae gan lawer o ysgolion glybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol, a lleolir clybiau eraill mewn neuaddau pentref, canolfannau cymunedol a meithrinfeydd dydd. Caiff y plant eu cofrestru a chânt fyrbryd a diod. Lle bo'n briodol, caiff y clybiau eu cofrestru a'u harolygu gan ASGC ac mae staff chwarae cymwysedig neu hyfforddedig yn goruchwyllo'r gweithgareddau (un aelod o staff i bob 8 plentyn o dan 8 oed).

Dylai'r amgylchedd chwarae fod yn ysgogol ac amrywiol gydag ystod o weithgareddau fel celf/crefft, gemau a chwarae corfforol i blant ddewis ohonynt. Hefyd, mae'n bosib fod yno le tawel i ddarllen a gwneud gwaith cartref. Caiff y plant eu goruchwyllo nes daw rhiant neu ofalwr i'w casglu. Weithiau, bydd gwasanaeth casglu ar gael i hebrwng plant i'r ysgol o'r clwb a'u dychwelyd adref ar ddiwedd eu diwrnod.

5

mathau o ofal plant sydd o bosib heb eu cofrestru

Mae'n bosib nad yw'r dewisiadau gofal plant canlynol wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC), er bod rhai'n dewis cofrestru:

(Nodwch na chewch chi hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith os ydych chi'n defnyddio gofal plant heb ei gofrestru.)

- 1) cylchoedd rhieni a phlant bach
- 2) au pairs
- 3) gwarchodwyr
- 4) crèches
- 5) ffrindiau ac aelodau o'r teulu
- 6) nanis



1) cylchoedd rheini a phlant bach / cylchoedd ti a fi

Mae Cylchoedd Rhieni a Phlant Bach yn darparu'n bennaf ar gyfer plant dan 2 oed. Mae'r rhieni/gofalwyr yn aros gyda'u plant, felly does dim raid i gylchoedd gofrestru gydag ASGC. Mae'r sesiynau'n ei gwneud hi'n bosib i rieni a phlant gymysgu ag eraill a mwynhau amrywiaeth o wahanol weithgareddau.

Mae Cylchoedd Ti a Fi yn galluogi rhieni a gofalwyr i chwarae ochr yn ochr â'u plant a chymdeithasu'n anffurfiol yn y Gymraeg. Gall rhieni nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg ddysgu Cymraeg gyda'u plant, gan fwynhau straeon, caneuon a hwiangerddi elfennol yn ogystal ag ymadroddion syml i'w defnyddio gartref.



2) au pairs

Fel rheol, myfyrwyr tramor rhwng 17 a 27 oed yw Au Pairs. Does ganddyn nhw ddim cymwysterau gofal plant fel arfer, felly dyw eu rhoi i ofalu am blant cyn-ysgol ar eu pen eu hunain ddim yn syniad da. Mae Au Pairs yn byw fel aelodau o'r teulu er mwyn dysgu Saesneg. Gallant weithio hyd at 5 awr y dydd yn y cartref yn gyfnewid am ystafell, lwfans a 2 ddiwrnod llawn yn rhydd bob wythnos.

3) gwarchodwyr

Fel rheol bydd gwarchodwyr yn gofalu am blant fel y gall y rhieni fynd allan gyda'r nos neu am y prynhawn. Does dim gofyniad oed cyfreithiol, ond mae'r NSPCC yn dweud y dylai gwarchodwyr fod dros 16. Os bydd rhywun sydd o dan 16 oed yn gwarchod i chi a'r plentyn yn cael niwed tra bydd o dan ei g/ofal, mae'n bosib mai chi gaiff eich dal yn gyfrifol. Felly dewiswch yn ofalus a gofynnwch am eirida os nad ydych yn nabod y person yn dda.

Mae'r daflen 'Home Alone' yn cynghori rhieni sy'n edrych am warchodwyr. Yr NSPCC sy'n ei chyhoeddi ac mae ar gael gan eich Gwasanaeth Gwybodaeth Plant (GGP) lleol. Os oes cylch gwarchod lleol o fewn cyrraedd i chi, gallwch rannu gofal plant gyda rhieni eraill.

4) crèches

Mae Crèches yn darparu gofal achlysurol tra bydd y rhieni'n siopa, er enghraifft, neu'n gwneud chwaraeon neu ar gwrs.

Disgwylir i rieni aros ar yr un safle, er nad yn yr un ystafell o reidrwydd. Rhaid i'r crèche fod wedi'i gofrestru os yw'n derbyn plant o dan 8 oed, yn rhedeg am 2 awr neu fwy bob dydd a thros 6 neu fwy o ddyddiau'r flwyddyn ar yr un safle (hyd yn oed os yw'r plentyn ond yn mynychu am gyfnodau byrrach).



5) ffrindiau ac aelodau o'r teulu

Mae rhai rhieni'n gallu gofyn i deidiau a neiniau a pherthnasau eraill neu ffrindiau ofalu am eu plant. Mae hyn yn aml yn gweithio'n dda, ond dylech ystyried y math yma o ofal plant yr un mor ofalus ag y byddech yn ystyried cyfleuster cofrestredig. Os oes rhywun ar wahân i aelod agos o'r teulu'n gofalu am eich plentyn yn rheolaidd yn ei gartref ei hun yn gyfnewid am arian neu wobwr, rhaid iddo gofrestru fel gwarchodwyr plant gydag ASGC.

6) nanis

Mae nanis yn gofalu am blant yng nghartref y teulu. Does dim trefn reoledig ar eu cyfer ac nid oes raid iddynt gofrestru oni bai eu bod hefyd yn gweithio i deulu arall.

Dyletswyddau

Cyflogir nani gan y rhiant a gellir trafod ei hunion ddyletswyddau. Mae'n bwysig trafod beth a ddisgwylwch gan nani cyn ei chyflogi. Bydd nani fel arfer yn gofalu am bob agwedd o les y plentyn. Gall warchod yn rheolaidd ond mae'n annhebygol y bydd hi'n gwneud gwaith tŷ. Gall fyw i mewn neu ddod i'r cartref yn ddyddiol.



6


y safonau gofynnol cenedlaethol

Mae dau gorff yn gyfrifol am safonau gofal plant yng Nghymru:

- 1) Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC)
- 2) Estyn



1) Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC)



Rhaid i unrhyw un sy'n darparu gwasanaeth gofal plant am fwy na 2 awr y dydd i blant o dan 8 oed gofrestru gydag ASGC. Rhaid i wasanaethau cofrestredig fodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol, fel y'u nodwyd yn rheoliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r safonau gofynnol ar gyfer pob math o wasanaeth gofal plant. Mae'r Rheoliadau a'r Safonau ar gael gan ASGC a gallwch eu gweld ar wefan ASGC

www.asgc.cymru.gov.uk

I gofrestru gydag ASGC, rhaid i wasanaeth gofal plant sicrhau bod:

- y safle'n ddiogel ac yn addas
- gan y staff gymwysterau priodol
- y staff wedi derbyn cliriad iechyd, cliriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a bod pob geirda arall wedi'i wirio
- yr offer a'r gweithgareddau'n addas i nifer ac oedrannau'r plant
- y cofrestriad yn cael ei gynnal gan arolwg ASGC blynyddol a bod adroddiad ASGC yn cael ei arddangos

2) Estyn

Estyn sy'n arolygu ysgolion, canolfannau hyfforddi ac ati yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei gyllido ganddo.

Fel rhan o'i waith, mae Estyn yn gyfrifol am:

- hyfforddi a chofrestru arolygwyr addysg feithrin
- monitro ansawdd arolygon ac adroddiadau arolwg
- edrych eto ar unrhyw leoliad os oes rhywun arall yn dweud ei fod gryn dipyn yn is na'r safonau gofynnol

www.estyn.gov.uk



Rhaid i Brif Arolygydd Estyn roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru'n ynghylch:

- ansawdd a safon addysg feithrin
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant mewn addysg feithrin.

anableddau ac anghenion addysgol arbennig

Mae help wrth law.
Dylai fod gan eich
Gwasanaeth Gwybodaeth
Plant lleol fanylion ynghylch
darpariaeth gofal plant
sy'n addas i blant sydd ag
anableddau neu Anghenion
Addysgol Arbennig
yn eich ardal.

Bydd gwybodaeth ganddyn nhw
hefyd ynglŷn â sut i ddod o hyd
i gymorth i dalu costau gofal
plant. Mae cynlluniau cyfeirio ym
mhob rhan o Gymru yn helpu
plant gydag anghenion addysgol
arbennig i fynyachu cylchoedd
chwarae gyda phlant eraill
o'r un oed.

Hygyrchedd a'r Comisiwn Hawliau Anabledd

Rhaid i bob darparwr gofal plant fodloni gofynion
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
(DGSA) a gwneud 'addasiadau rhesymol' i
gynnwys plant anabl. Ni ddylent drin plentyn
anabl 'yn llai ffafriol' oherwydd ei anabledd.
Gallwch ffonio'r **Comisiwn Hawliau Anabledd**
(CHA) ar **08457 622 633** am ganllawiau i'r
gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â darparwyr
gofal plant.

Cymorth ariannol ychwanegol

Gall y Credyd Treth Plant gynnwys arian
ychwanegol ar gyfer plant anabl. Gall y Credyd
Treth Gwaith gynnwys cymorth gyda chostau
gofal plant. I weld beth allwch ei hawlio,
cysylltwch â **llinell gymorth Credyd Treth Cyllid y**
Wlad ar **0845 300 3900**.

Gellir hawlio Lwfans Byw i'r Anabl am blentyn
gyda salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd
difrifol os oes angen llawer mwy o gymorth a
gofal arno na phlant eraill o'r un oed o ganlyniad
i'w salwch. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r
Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar
0800 88 22 00.



8

cynllun gweithredu rhianta

Yn 2005 cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Chynllun Gweithredu Rhianta cyntaf ar gyfer y 3 blynedd hyd at Fawrth 2008.

Nod y Cynllun yw:

- codi proffil rhianta ymhlith llunwyr polisiau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru
- datblygu polisiau a gwasanaethau i gefnogi mamau, tadau a gofalwyr
- clustnodi camau allweddol y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu rhoi ar waith i gefnogi rhianta yng Nghymru



Mae'r camau allweddol yn y Cynllun Gweithredu Rhianta yn cynnwys



Arian ychwanegol i wasanaethau rhieni

bydd mwy o arian ar gael i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol o dan Cymorth (y Gronfa Gymorth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc) i'w wario ar gymorth teulu a rhianta.



Llinell gymorth ddwyieithog newydd i rieni

bydd y llinell gymorth yn rhoi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf i rieni ynglŷn â'r hyn sydd ar gael yn eu hardal nhw. Lle bo'n briodol, bydd yn eu cyfeirio at ffynonellau cymorth a chefnogaeth eraill yn lleol.



Llyfrynnau ar gyfer rhieni

fel atodiadau i 'Naw Mis a Mwy' a 'Y Blynnyddoedd Cyntaf', sydd eisoes yn cael eu rhoi i bob rhiant newydd. Lluniwyd y llyfrynnau hyn i roi cyngorion ar sut i ymdopi â sefyllfaoedd o ddydd i ddydd, rheoli ymddygiad heriol a chyngor ar ddewisiadau gwell na disgyblu corfforol.



Rhwydweithiau Rhieni

mae'r rhain yn bodoli'n barod mewn rhai ardaloedd. Maen nhw'n cefnogi rhieni ac yn rhoi mwy o lais iddynt yn y gwasanaethau sydd ar gael a sut y cânt eu trefnu. Rydym yn cynhyrchu arweiniad ymarfer da i Bartneriaethau lleol ar sut i sefydlu a chefnogi Rhwydweithiau Rhieni.



Hyrwyddo ymwneud rhieni ag ysgolion a gwella'r wefan addysg rhwydrhieni yn

www.dysgu.cymru.gov.uk/rheini

9

canolfan byd gwaith

canolfan**byd**gwaith
job**centre**plus

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac mae'n cynnwys swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith, Canolfannau Gwaith a swyddfeydd nawdd cymdeithasol.

Nod y Ganolfan Byd Gwaith yw helpu:

- mwy o bobl i mewn i waith â thâl
- cyflogwyr i lenwi eu swyddi gwag
- rhoi'r cymorth y mae gan bobl o oedran gweithio yr hawl iddo os na allant weithio



ymgynghorwyr personol

Mae ymgynghorwyr personol yn swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn cynnig cyngor ymarferol ar bob cam o'r broses o chwilio am waith.

Gallant eich helpu:

- os nad ydych yn siŵr beth rydych eisiau ei wneud
- pan fydd angen cyngor arnoch ar eich opsiynau a chynllunio i'r dyfodol
- pan fyddwch yn chwilio am waith
- pan fyddwch eisiau hyfforddiant ar gyfer swydd
- ar ôl i chi ddechrau gweithio

Hefyd gall eich ymgynghorydd personol:

- gyfrif faint yn well eich byd y byddech mewn swydd
- egluro'r effaith y gallai dechrau gweithio ei gael ar eich budd-daliadau neu gredydau treth
- egluro pa fudd-daliadau neu gredydau treth y gallai fod hawl gennych i'w gael pan fyddwch yn dechrau gweithio
- cael mynediad at gyngor cyflogaeth arbenigol os ydych yn anabl neu os oes gennych broblem iechyd
- eich helpu i ddod o hyd i ofal plant cofrestredig o ansawdd da yn eich ardal chi
- helpu gyda chostau mynd i gyfarfodydd, cyfweiliadau ar gyfer swyddi neu hyfforddiant, gan gynnwys costau teithio a gofal plant cofrestredig



Credydau Treth Gwaith a chymhellion ariannol eraill

Efallai fod hawl gennych i Gredyd Treth Gwaith (gan gynnwys cymorth tuag at gostau gofal plant) a manteision ariannol eraill pan fyddwch yn symud i fyd gwaith. Gall eich ymgynghorydd personol ddweud wrthyfych chi am y rhain.



Ble i fynd am fwy o wybodaeth

I ddarganfod mwy am wasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith edrychwch ar wefan

www.canolfanbydgywaith.gov.uk

Os ydych chi'n edrych am waith, gall ein gwasanaeth ffôn, Ceisiwr Gwaith Uniongyrchol, eich helpu.

Ffoniwch Ceisiwr Gwaith Uniongyrchol ar **0845 6067 890**

Os oes gennych anawsterau ar eich clyw neu ar eich lleferydd gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth ffôn testun ar

0845 6044 022

a bydd ein ymgynghorwyr yn eich helpu.

(Codir cyfraddau lleol ar alwadau ond gall amrywio o ffonau symudol). Neu gallwch gysylltu â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.

10

cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Nid ymdrin â theuluoedd a gofal plant yn unig y mae Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith. Mae'n ymwneud â chreu'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn y gall pobl ei gyflawni yn y gwaith ac yn y cartref, gan roi o'u gorau yn y naill a'r llall.

Mae llawer o gyflogwyr yn cynnig hyblygrwydd yn y gwaith. Mae eraill yn cynnig manteision fel talebau gofal plant, seibiant gyrfa neu gymorth gyda dod o hyd i ofal plant. Mae deddfau newydd yn rhestru'r manteision o dan Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith a allai eich helpu i dreulio mwy o amser gyda'ch plentyn/ plant a'i gwneud hi'n haws i chi drefnu gofal plant.

Mae'r manteision posib o dan gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn cynnwys:

- gweithio hyblyg
- absenoldeb rhiant
- absenoldeb mabwysiadu
- amser o'r gwaith ar gyfer dibynyddion

Gall eich GGP lleol roi mwy o wybodaeth i chi am yr hyn y gallwch chi ei hawlio. Gallant hefyd eich cyfeirio at sefydliadau eraill a allai helpu.



cysylltiadau defnyddiol

Isod ceir manylion cyswllt y sefydliadau sy'n cael sylw yn yr arweiniad hwn ynghyd â sefydliadau eraill a allai helpu gyda materion yn ymwneud â gofal plant. Maen nhw'n cynnwys elusennau, sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau'r llywodraeth.

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC)

www.asgc.cymru.gov.uk
01443 848450

Gwaith ASGC yw gwneud yn siŵr fod gwasanaethau gofal yn bodloni'r safonau y mae gan bobl hawl i'w disgwyl. Mae'n rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn gweithio'n annibynnol arno.

Child Death

www.childdeathhelpline.org.uk/
0800 282986 (rhadffôn)

I unrhyw un sydd wedi dioddef yn sgil marwolaeth plentyn.

Rhwydwaith Gwarchodwyr Plant yn Gyntaf

(gweler Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant)

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

www.clybiauplantcymru.org

029 2074 1000

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn hyrwyddo ac yn cefnogi clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol sydd o ansawdd da, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

Cyswllt Teulu

www.cafamily.org.uk

029 2044 9569

Elusen yw Cyswllt Teulu i gefnogi teuluoedd sy'n gofalu am blant ag anabledd neu anghenion arbennig i helpu ei gilydd. Mae'n darparu gwybodaeth am grwpiau cymorth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Ymddiriedolaeth Gofal Dydd

www.daycaretrust.org.uk

020 7840 3350

Yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd yw'r elusen gofal plant cenedlaethol sy'n ymgyrchu am ofal plant fforddiadwy ac o ansawdd uchel i bob plentyn 0-14 oed.

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau

www.dwp.gov.uk 0800 88 22 00

Llinell gymorth gyfrinachol yn cynnig gwybodaeth a chyngor am y Lwfans Byw i'r Anabl a budd-daliadau eraill.

Comisiwn Hawliau Anabledd (CHA)

www.drc.org.uk 08457 622 633

Mae'r CHA yn rhoi cyngor a gwybodaeth am eich hawliau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGSA) 1995.

Estyn

www.estyn.gov.uk 029 2044 6446

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Canolfan Byd Gwaith

www.canolfanbydgwaith.gov.uk 0845 6067 890

Mae Canolfan Byd Gwaith yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) sy'n cynnwys swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith, Canolfannau Gwaith a swyddfeydd nawdd cymdeithasol.

Y Gynghrai Mamolaeth

www.maternityalliance.org.uk 020 7490 7638

Elusen genedlaethol yw'r Gynghrai Mamolaeth sy'n gweithio i wella hawliau a gwasanaethau i fenywod beichiog, rhieni newydd a'u teuluoedd.

Mudiad Ysgolion Meithrin

www.mym.co.uk 01970 639639

Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn hyrwyddo a chefnogi addysg a datblygiad plant dan 5 oed yn y Gymraeg.

Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant

www.ncma.org.uk 0845 880 0044

Mae Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant yn cefnogi gwarchodwyr plant i hyrwyddo eu gwaith a hyrwyddo gwasanaethau o ansawdd da i blant. Mae hefyd yn rhedeg Rhwydwaith Gwarchodwyr Plant yn Gyntaf.

Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA)

www.ndna.org.uk 0870 774 4244 (prif swyddfa)
01824 707823 (swyddfa Cymru)

Nod yr elusen Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yw gwella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i'w haelodau.

NSPCC (Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant)

www.nspcc.org.uk 0808 800 5000 (rhadffôn)

Mae'r NSPCC yn arbenigo ym meysydd amddiffyn plant ac atal creulondeb i blant. Gall gyngori os oes pryderon am blentyn neu blant sydd mewn perygl.

Y Fargen Newydd

www.y-fargen-newydd.gov.uk
0800 868 868 (rhadffôn)

I unig rieni. Mynediad i unig rieni sy'n derbyn cymhorthdal incwm i becyn cynhwysfawr o arweiniad a chymorth.

Parentline Plus

www.parentlineplus.org.uk 0808 800 2222 (rhadffôn)

Elusen yw Parentline Plus sy'n darparu cymorth i rieni o dan straen.

Rhwyrhieni

www.dysgu.cymru.gov.uk/rheini

Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru i rieni.

Chwarae Cymru

www.chwaraecymru.org 029 20486050

Hyrwydda ddarpariaeth chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn, a darpara gymorth ym mhob agwedd ar waith chwarae wedi'i staffio, datblygiad meysydd chwarae, ac addysg a hyfforddiant gwaith chwarae.

Tamba Tinline

www.tamba.org.uk/html/home.htm 01732 868000

Mae'r Gymdeithas ar gyfer efeilliaid a genedigaethau lluosog yn cynnig cymorth a gwybodaeth i deuluoedd.

Credydau Treth

www.hmrc.gov.uk/cymraeg 0845 300 3900

Cyswllt i wefan Cyllid y Wlad sy'n egluro credydau treth ac sydd â chyfrifiannell i'ch helpu i gyfrif beth sydd gennych hawl iddo.

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru

www.walesppa.org 01686 624573

Mae Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru yn darparu gwybodaeth, adnoddau a chymorth i rieni a lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

www.cymru.gov.uk

Gwefan swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Teuluoedd sy'n Gweithio

www.workingfamilies.org.uk 020 7253 7243

Mae Cyswllt Teulu yn helpu rhieni i ddod o hyd i well cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau yn y cartref ac yn y gwaith.

12

gwasanaeth gwybodaeth plant (GGP)

Isod ceir rhestr o'r 22 Gwasanaeth Gwybodaeth Plant yng Nghymru. I lawer o bobl, y swyddfeydd GGP lleol hyn yw'r man cychwyn i ddysgu mwy am ofal plant yn lleol, yr hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo ac i ateb unrhyw gwestiynau eraill a allai fod ganddyn nhw.

Ynys Môn

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn, Llangefni Library, Lôn y Felin, Ynys Môn, LL77 7RT
01248 752 699
cis@anglesey.gov.uk
www.monifanc.org.uk

Blaenau Gwent

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Blaenau Gwent, Hen Ysgol Babanod Blaenau, Stryd Fawr, Blaenau, Blaenau Gwent, NP13 3BN
08000 32 33 39
cis@blaenau-gwent.gov.uk
www.blaenau-gwent.gov.uk

Pen-y-bont ar Ogwr

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Pen-y-bont ar Ogwr, 3ydd Llawr, Tŷ Derwen, Court Rd, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1BN
0800 1804320
childrensinfo@bridgend.gov.uk
www.bridgend.gov.uk

Caerffili

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ystrad Fawr, Ffordd Caerffili, Hengoed, Caerffili, CF82 7SF
01443 863232
cis@caerphilly.gov.uk
www.caerphilly.gov.uk/cis

Caerdydd

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a Phobl Ifanc Caerdydd, 2il Lawr, Tŷ Alexander, Ffordd Excelsior, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF14 3AT
029 2052 0100
CYIS@cardiff.gov.uk
www.ifanc.org.uk



Sir Gaerfyrddin

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir Gâr,
Limegrove House, Limegrove Avenue,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1SW
01267 224 224
childreninfo@carmarthenshire.gov.uk
www.carmarthenshirechildrenspartnership.org.uk

Ceredigion

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Ceredigion,
London House, Aberaeron, Ceredigion, SA46 OAJ
01545 572 636
cis@ceredigion.gov.uk
http://cis.ceredigion.gov.uk

Conwy

Cyfnewid Gwybodaeth Plant Conwy,
Canolfan Lôn yr Hen Ysgol, Church Walks,
Llandudno, Conwy, LL30 2HL
01492 876260
plant.children@conwy.gov.uk
www.conwy.gov.uk/plant

Sir Ddinbych

Gwsanaeth Gwybodaeth Plant Sir Ddinbych,
Yr Hen Garchar, 46 Stryd Clwyd, Rhuthun,
Sir Ddinbych, LL15 1HP
01824 708 220
gwybodaethplant@sirddinbych.gov.uk
www.sirddinbych.gov.uk/gwybodaethplant

Sir y Fflint

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir y Fflint, Canolfan
Westwood, Stryd Tabernacl, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2JT
01244 547 017
cis@flintshire.gov.uk
www.siryfflint.gov.uk

Gwynedd

Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Plant Gwynedd
(Gwynedd Childcare Information Service),
Ystafell 7, 19 Ffordd Bangor, Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1AT
01286 675 570
Gwybodaethplant@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

Merthyr Tudful

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Merthyr Tudful,
Canolfan Blant Integredig, Duffryn Rd,
Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4BJ
01443 694700
cis@merthyr.gov.uk
www.merthyr.gov.uk

Sir Fynwy

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir Fynwy,
Adran Blynnyddoedd Cynnar, 5ed Llawr, Neuadd y Sir,
Cwmbran, Sir Fynwy, NP44 2XH
01633 644 527
info@monmouthshirecis.org.uk
www.monmouthshirecis.org.uk

Casnewydd

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Casnewydd,
10 Commercial Road, Casnewydd, NP20 2PA
0800 328 8483
childrens.information@newport.gov.uk
www.newport.gov.uk/childcare

Castell-nedd Port Talbot

Uned EYDCP – Castell-nedd Port Talbot
9 Stryd Fawr, Pontardawe, Abertawe, SA8 4HU
01792 865 914
l.cole@neath-porttalbot.gov.uk
www.npteydcp.org.uk

Sir Benfro

Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Plant Sir Benfro,
36/38 Stryd Fawr, Hwlfordd, SA61 2DA
01437 763 344
childcareinfo@pembrokeshire.gov.uk
www.childreninformationsservice.org

Powys

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Powys, Y Gwalia,
Ffordd Ithon, Llandrindod, Powys, LD1 6AA
0845 130 3637 (saesneg)
0845 130 3839 (cymraeg)
cis@powys.gov.uk
www.cis.powys.gov.uk



Rhondda Cynon Taf

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Rhondda Cynon Taf,
Gwasanaethau'r Blynnydoedd Cynnar a Chefnogi
Teuluoedd, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar,
Rhondda Cynon Taf, CF42 4UQ

0800 180 4151

Childinfoserv@rhondda-cynon-taf.gov.uk

www.rclearlyyears.org.uk

Abertawe

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Abertawe, Unit B3, Parc
Technoleg Lakeside, Ffordd Ffenics,
Llansamlet, Abertawe, SA7 9FL

0179 251 7222

cis@swansea.gov.uk

www.cyfeirlyfrcymunedolabertawe.org.uk

Tor-faen

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Tor-faen,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen,
Adran Addysg,
Neuadd y Sir,
Cwmbrân, Tor-faen, NP44 2WN

0800 0196 330

cis@torfaen.gov.uk

www.torfaencis.org.uk

Bro Morgannwg

Gwasanaeth Gwybodaeth am faterion Plant a Phobl Ifanc
Bro Morgannwg (CYPIS), Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaethau Cymunedol, Swyddfeydd y Dociau,
Subway Road, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 4RT

01446 704 704

cypis@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk/cypis

Wrecsam

Canolfan Wybodaeth am Blant
Llyfrgell a Chanolfan Gelf Wrecsam, Ffordd Rhosddu,
Wrecsam, LL11 1AU

01978 292 094

cib@wrexham.gov.uk

www.wrexham.gov.uk/cwb

